teithiobyw activetravel

Yswiriant ar gyfer cynlluniau beiciau cronfa

Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus

Mae'n bwysig i'ch sefydliad ddarparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus (trydydd parti) ar gyfer defnyddwyr eich cynllun beiciau cronfa. Gwneir hyn fel arfer trwy yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyffredinol y sefydliad, sydd yr un ag a ddarperir ar gyfer pobl sy'n cerdded wrth gyflawni eu gwaith. Dylid gwirio lefel yr yswiriant a ddarperir cyn sefydlu cynllun beiciau cronfa; a dylid trafod unrhyw eithriadau: er enghraifft, ynglŷn â defnyddio'r beiciau y tu allan i oriau gwaith.

Mewn rhai achosion bydd angen o bosibl trefnu yswiriant pellach. Ceir polisïau beiciau cronfa gyda'r elfennau canlynol:

- yswiriant indemniad o £5 miliwn
- amddiffyniad i gyflogwyr rhag hawliadau gan weithwyr a thrydydd person, ac i weithwyr rhag hawliadau gan drydydd person
- yswiriant ar gyfer beicio i'r gwaith, o'r gwaith a rhwng mannau gwaith, yn cynnwys cymudo'n rheolaidd
- yswiriant ar gyfer defnyddio'r beiciau gan weithwyr y tu allan i'r gwaith, e.e. teithiau hamdden gyda'r hwyr a thros y penwythnos.

Yswiriant damweiniau personol

Gall gweithwyr drefnu yswiriant damweiniau personol yn unigol er mwyn eu hyswirio os cant eu hanafu, a bod neb arall ar fai. Bydd hynny'n digolledu gweithwyr, gan ddarparu rhywfaint o dreuliau ar gyfer ffioedd meddygol neu golli cyflog os na fydd modd gweithio ar ôl damwain.

Yswiriant lladrad

Bydd llawer o ddarparwyr yswiriant yn ychwanegu yswiriant lladrad ar gyfer beiciau cronfa at bolisi presennol y sefydliad. Dylid gwirio hyn cyn sefydlu cynllun beiciau cronfa. Os nad yw'r yswiriant presennol yn gofalu am y beiciau cronfa, bydd modd o bosibl yswirio beiciau dan bolisi ar wahân. Mewn rhai achosion, bydd yn rhatach i neilltuo cronfa wrth gefn ac anghofio unrhyw golledion. Gall y sefydliad benderfynu dim ond anghofio'r colledion os defnyddir y beic ar gyfer y gwaith, gan egluro mai cyfrifoldeb y gweithiwr fydd prynu beic yn lle beic a ladratawyd wrth gael ei ddefnyddio ar gyfer hamdden neu gymudo i'r gwaith.

Dysgu oddi wrth gynlluniau eraill

Os cewch unrhyw anawsterau wrth drefnu yswiriant ar gyfer eich cynllun, gallai fod yn werth siarad â sefydliad sydd eisoes wedi trefnu yswiriant. Mae'r ddogfen 'Teithio Byw yn y Gweithle: Astudiaethau Achos' i'w chael yn www.activetravelcymru.org.uk/toolkit ac mae ynddi nifer o esiamplau gyda manylion cyswllt llawn.

sports council wales
cyngor chwaraeon cymru